TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma NVQ mewn Cyngor ac Arweiniad Lefel 4



## Yn gryno

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol sydd eu hangen ar gyflogwyr mewn ystod eang o rolau lle darperir gwybodaeth, cyngor neu arweiniad.

## Dyma'r cwrs i chi os...

...unrhywunsy'ndarparucyngoracarweiniadmewnrôlbroffesiynolneuwirfoddol.

...unrhywunsy'ngweithiomewnmaesblerhoddirarweiniadynghylchgyrfaoedd,iundebllafur,mewnysgol,yn y maestai,adnoddaudynolneuyn y maesiechydagofalcymdeithasol.

## Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae hwn yn Gymhwyster Galwedigaethol Genedlaethol (NVQ). Mae'n cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau ble rhoddir cyngor ac arweiniad gan gynnwys y gallu i drefnu gwaith a nodi ac atal problemau.

Rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth (wedi'i chofnodi mewn portffolio) sy'n dangos yn glir eu bod wedi bodloni meini prawf asesu a deilliannau dysgu'r unedau a ddewiswyd.

Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r unedau gorfodol a dewisol sy'n berthnasol i'w llwybr a'u rôl alwedigaethol.

Mae Lefel 3 yn ddelfrydol os ydych wedi bod yn gweithio mewn amgylchedd ble rhoddir cyngor ac arweiniad ers peth amser a bod gennych lawer iawn o sgiliau technegol ynghyd â dealltwriaeth gadarn o gysyniadau a damcaniaethau. Efallai y bydd gennych hefyd gyfrifoldebau rheoli ychwanegol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gyda chi a'ch cyflogwr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys tua 9 uned yn dibynnu ar yr opsiynau a ddewiswyd. Gall gymryd rhwng 9 a 14 mis i'w gwblhau. Gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain ond bydd ein tîm o aseswyr yn rhoi cynllun cychwynnol ar waith i gwblhau uned bob mis ac mae'n bosib ei gwblhau'n gynt. Bydd dyfynbris ffurfiol yn cael ei baratoi unwaith y byddwn yn deall eich anghenion hyfforddi ond fel canllaw, rydym yn codi £1000 y pen ynghyd â ffioedd ychwanegol ar gyfer cofrestru gyda chyrff dyfarnu (tua £191).